Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles


Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being

cwmpas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymunedau Digidol Cymru

## Prif ffrydio Cynhwysiant Digidol ar draws Llyfrgelloedd



Dyma argymhellion CDC ar gyfer prif ffrydio a gweithredu Cynhwysiant Digidol yn llwyddiannus ar draws y gwasanaeth llyfrgell:

**Cynnal Archwiliad Sgiliau Digidol i ddeall sgiliau digidol sylfaenol a hyder cyd-weithwyr y Llyfrgell**

Gall CDC ddarparu templed dwyieithog o Archwiliad Sgiliau Digidol sydd wedi'i greu i ddeall sgiliau, hyder a mynediad staff a gwirfoddolwyr. Dylid cynnal hwn yn flynyddol i ddeall sgiliau neu anghenion staff a gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth llyfrgell.

Mae Cymunedau Digidol Cymru yn arwain archwiliad sgiliau digidol Llyfrgelloedd Cymru (llyw.cymru)

**Yr Isadran Ddiwylliant a llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol i lofnodi Siarter Cynhwysiant Digidol CDC a gweithio tuag at statws Achrediad**

Mae'r Siarter yn cynnwys chwe addewid ac mae'n ffordd i sefydliadau ddangos eu hymrwymiad i hyrwyddo sgiliau digidol sylfaenol a helpu pobl sydd wedi'u cau allan yn ddigidol i fwynhau manteision bod ar-lein. Pan fydd sefydliad yn llofnodi'r Siarter Cynhwysiant Digidol, mae CDC yn gofyn iddyn nhw ymrwymo i'r chwe phrif addewid, gan ganiatáu i ni gydweithio mewn ysbryd o gydweithredu i hyrwyddo cynhwysiant digidol yng Nghymru.

https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/siarter-cynhwysiant-digidol/

**Pob Llyfrgell Awdurdod Lleol i wneud y mwyaf o fod yn Ganolfan Ar-lein gofrestredig y DU**

Anogaeth i holl lyfrgelloedd yr Awdurdod Lleol gofrestru fel rhan o'r Rhwydwaith Cynhwysiant Digidol Cenedlaethol gyda phartner CDC, The Good Things Foundation. Fel Hyb Cynhwysiant Digidol, bydd gan Lyfrgelloedd fynediad i Learn My Way sy'n blatfform ar-lein rhad ac am ddim i helpu dysgwyr i ennill sgiliau digidol a hyder gyda adnoddau ar-lein GTF ar amrywiaeth o themâu i helpu i gefnogi dysgwyr, mynediad at ddigwyddiadau rhwydwaith, a mynediad at becynnau data a dyfeisiau ar gyfer aelodau'r gymuned.

Gall CDC gefnogi gyda rhagor o wybodaeth am Learn My Way a bod yn Hyb Cynhwysiant Digidol.

Ymunwch â'r Rhwydwaith Cynhwysiant Digidol Cenedlaethol | Good Things (goodthingsfoundation.org)